# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(Multi-Location Meeting - Council Chamber, Port Talbot and Microsoft Teams)**

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Iau, 19 Ionawr 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.James** |
| **Cynghorwyr**: | T.Bowen, C.Clement-Williams, C.Galsworthy, J.Henton, R.G.Jones, C.Lewis, S.Paddison, C.Phillips, R.Phillips, S.Pursey, S.H.Reynolds, A.J.Richards a/ac M.Spooner |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, A.Thomas, Ms.L.Willis, C.Furlow-Harris, A.James, C.John a/ac J.Woodman-Ralph |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr W.F.Griffiths, S.K.Hunt, J.Hurley, N.Jenkins, S.Jones, S.A.Knoyle, A.Llewelyn a/ac D.M.Peters |
| **Arsylwyr:** | |

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Dewisodd y Pwyllgor graffu ar yr eitem ganlynol ar agenda'r Cabinet:

Cynigion y Gyllideb 2023/24 ar gyfer Ymgynghoriad

Darparwyd gwybodaeth i aelodau ynghylch ceisio cymeradwyaeth i ymgynghori ar gynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24 gan y Cabinet. Nodwyd y cynhelir ymgynghoriad byr hyd at 10 Chwefror 2023 oherwydd amseru'r setliad llywodraeth leol dros dro. Adolygir ymatebion yn dilyn yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cyllideb derfynol ar gyfer 2023/24 yn ystod cyfarfod Cabinet y Cyngor ar 1 a 2 Mawrth yn eu trefn, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddogion mewn perthynas â'r pwyntiau canlynol fel y nodir yn yr adroddiad:

- Gofynnwyd a oedd y Gronfa Bontio Ynni Adnewyddadwy £2.8 miliwn yn benodol ar gyfer ynni adnewyddadwy neu a fyddai'r gronfa hon yn cynnwys meysydd eraill. Esboniodd swyddogion mai'r cynnig oedd neilltuo £2.8 miliwn gan fod angen i ni gyrraedd targed sero net dros y 7 mlynedd nesaf. Nodwyd os derbynnir y cynnig hwn, byddai aelodau'n derbyn adroddiadau pellach ynghylch unrhyw ddefnydd o'r gronfa honno.

- Nodwyd o fewn y gofrestr risgiau y nodir cyflwyno gwastraff fel risg uchel oherwydd costau chwyddiant tanwydd. Gofynnodd aelodau pa fesurau lliniaru a ddefnyddir er mwyn cefnogi hyn. Esboniodd swyddogion fod tanwydd wedi lleihau yn dilyn amlygu'r risg hwn felly nid oes unrhyw gynnig i ddiwygio cyflwyno gwastraff. Gofynnodd aelodau i'r risg hwn gael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu hyn o fewn y gofrestr risgiau.

- Trafododd aelodau effaith y dyfarniad cyflog. Roedd angen sicrwydd ar aelodau ynghylch cynnig y dyfarniad cyflog ysgolion. Nodwyd o fewn cyllideb eleni y cytunwyd y telir y bwlch o 4%. Ar gyfer y cynnig a nodwyd yng nghyllideb y flwyddyn nesaf, trafodwyd y darperir y 5% llawn trwy gronfeydd wrth gefn ysgolion.

- Trafododd swyddogion y cynnig ynghylch arbed costau glanhau mewn ysgolion. Nodwyd mai'r cynnig oedd gwaredu'r cymhorthdal ar gyfer glanhau ysgolion oherwydd teimlwyd mai cyfrifoldeb yr ysgolion oedd talu am hyn.

- Nodwyd bod dadansoddiad yn cael ei gynllunio i roi manylion ynghylch yr ysgolion y gallai fod yn anodd iddynt gydbwyso cyllidebau gyda phwysau ar gyllidebau yn y dyfodol, a fyddai'n

achosi iddynt fod mewn diffyg ariannol o bosib. Gofynnodd yr aelodau i'r dadansoddiad gael ei ddosbarthu pan fydd wedi'i gwblhau.

- Nododd aelodau eu rhwystredigaeth am fod y ddogfen ymgynghori wedi'i dosbarthu'n hwyr. Ymddiheurodd swyddogion am unrhyw anghyfleustra, ond esboniwyd mai'r ddogfen a gyflwynir i'r cyhoedd fyddai'r prif adroddiad am y gyllideb a oedd wedi'i atodi. Nodwyd hefyd y byddant yn cynnwys y cyhoedd gymaint ag sy'n bosib er mwyn mwyafu ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd yn amlwg yn ystod y drafodaeth fod aelodau'n teimlo'r pwysigrwydd o sicrhau bod yr adroddiad yn glir er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ddealltwriaeth glir o ganlyniadau cynigion y gyllideb. Sicrhaodd swyddogion felly eu bod yn darparu nodiadau esboniadol gyda dogfen y gyllideb pan fydd wedi'i gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad.

- Roedd aelodau hefyd yn cydnabod bod codau cyfarwyddiaeth o fewn adroddiadau'r gyllideb blaenorol ger pob un o'r cynigion er mwyn i aelodau fonitro a chymharu cynigion y gyllideb. Gofynnwyd i'r codau hyn gael eu cynnwys yn y ddogfen derfynol. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn y ddogfen yn y dyfodol.

- Gofynnodd aelodau pryd y byddant yn derbyn Cynllun Busnes Hamdden Celtic, gan y byddai hyn yn eu helpu wrth benderfynu ar gynigion y gyllideb ar gyfer hamdden. Cadarnhaodd swyddogion y byddai hyn ar gael iddynt ei dderbyn.

- Gofynnodd yr aelodau ynghylch y £30,000 a fyddai'n ofynnol i ariannu Parc y Gnoll. Esboniodd swyddogion eu bod wedi sicrhau arian a fyddai'n gwella Parc y Gnoll ac yn galluogi'r parc i wneud elw ac felly ni fyddai angen cymhorthdal arno yn y dyfodol.

- Cafwyd trafodaethau ynghylch cronfeydd wrth gefn a defnyddio cronfeydd wrth gefn. Nodwyd y defnyddir cronfeydd wrth gefn mewn achosion lle roedd pwysau, fodd bynnag, wrth flaengynllunio byddai angen ystyried a fyddai'r pwysau hyn yn barhaus ac os bydd yn barhaus, byddai angen ystyriaeth bellach ynghylch cyllid i atal defnyddio cronfeydd wrth gefn i dalu costau parhaus.

- Gofynnodd aelodau ynghylch y cynnig i gynyddu ffïoedd a thaliadau 10%. Esboniodd swyddogion na fyddai hyn o reidrwydd yn golygu y byddai'r holl ffïoedd a thaliadau'n cynyddu 10%; byddai wedi'i gapio ar 10% ar gyfer y ffïoedd a'r taliadau hynny.

- Gofynnodd aelodau am y cynigion ynghylch adolygiad yr Adeiladau a gofynnodd a fyddai'r arbedion hyn yn cael eu cynnwys o fewn 2023/24. Esboniodd swyddogion fod yr adolygiad yn ceisio bod yn gost-effeithiol wrth geisio sicrhau nad yw'r gwasanaeth cyhoeddus wedi'i effeithio a sicrhau bod hyn wedi'i ddarparu'n effeithiol. Felly, ystyriwyd yr adeiladau eu hunain a'r defnydd o'r adeiladau hynny yn y dyfodol yn ogystal â'r arbedion cyfleustodau cyffredinol megis diffodd goleuadau, etc.

- Gofynnwyd i aelodau, swyddogion ac ysgrifenwyr adroddiadau sicrhau nad ydynt yn defnyddio acronymau er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn deall y drafodaeth ac unrhyw wybodaeth a ddarperir o fewn y broses ymgynghori.

Yn dilyn craffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r argymhellion i'r Cabinet.

<u>Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU - Cymeradwyo prosiectau 'angori' strategol</u>

Hysbyswyd aelodau ynghylch prosiectau 'angori' strategol a ariennir gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a oedd yn destun cymeradwyaeth yn dilyn cyfarfod y Cabinet, fel y'i nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Derbyniodd aelodau gyflwyniad PowerPoint gan swyddogion, a oedd yn manylu ymhellach ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a phrosiectau angori strategol.

Canmolwyd y swyddogion gan yr aelodau am y gwaith a wnaed gan swyddogion mewn perthynas â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Yn dilyn craffu, roedd y Pwyllgor yn gefnogol o'r argymhellion i'r Cabinet.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**